Paul Eastwood

# Dad-ddarlleniadau



# Paul Eastwood

# Dad-ddarlleniadau

14/03/26 - 20/06/26

“Mae Dad-ddarlleniadau yn cyflwyno corff newydd o waith gan yr artist Paul Eastwood, sydd wedi’i leoli yng Nghymru, sy’n archwilio iaith fel deunydd a safle brwydrau. Gan dynnu ar ei brofiad bywyd fel artist dwyieithog dyslecsig a niwrowahanol, mae Eastwood yn trawsnewid cam-gyfathrebu, camddarllen, camsillafu a cham-ynganu yn strategaethau creadigol. Mae’r arddangosfa’n dwyn ynghyd weithiau ar bapur, cerflunio, delwedd symudol a sain i ymchwilio i sut mae iaith yn llunio hunaniaeth, cof a pherthyn. Drwy ddatgelu’r llafur, y negodi a’r ansicrwydd sydd wedi’i wreiddio mewn ysgrifennu, mae Dad-darlleniadau yn gwahodd gwylwyr i ystyried sut mae ystyr yn cael ei adeiladu, ei amharu a’i ail-greu.

Mae’r gwaith newydd hwn, a gyflwynir yn Oriel Mostyn, yn parhau ag arfer Eastwood o weithio gyda chydweithwyr hirdymor a rhai newydd: Samuel Barnes, cyfansoddwr; Dr Angharad Harrop, coreograffydd; Eilir Pierce, cyfarwyddwr ffilm; a Dr Sara Lewis Wheeler, darlithydd a bardd.”


Cafodd ei addysg yng Ngholeg Yale, Wrecsam (2003–2004), Wimbledon School of Arts, Llundain (2004–2007), ac Royal Academy Schools, Llundain (2011–2014). Ers dychwelyd i Gymru, mae wedi ennill Gwobr Gelf agoriadol NOVA (2017) ac wedi cymryd rhan mewn nifer o arddangosfeydd ledled Cymru, Lloegr ac Ewrop. Mae’r rhain yn cynnwys sioe unigol yn Oriel Chapter, Caerdydd (2019), yn ogystal ag arddangosfeydd grŵp yn Tŷ Pawb, Wrecsam, ac Oriel Mostyn, Llandudno (2023). Yn 2020, ymgymerodd â phreswyliad tair mis fel Cymrawd Creadigol Ysgol Cymru yn yr Ysgol Brydeinig yn Rhufain, ac yn 2023–2024 dyfarnwyd Cymrodoriaeth Cymru Fenis iddo.

https://mostyn.org/event/paul-eastwood-unreadings/


https://www.paul-eastwood.net

# David Jones

Fel rhan o arddangosfa Dad-ddarlleniadau Paul Eastwood, mae'r artist wedi dewis gweithiau hanesyddol o Lyfrgell Genedlaethol Cymru gan yr arlunydd, bardd ac ysgythrwr modernistaidd, David Jones.




Wedi'i eni ym 1895 yng Nghaint i deulu oedd yn siarad Cymraeg, cafodd ei annog rhag siarad Cymraeg gan ei dad a gredai y byddai'r iaith yn ei atal yn ei yrfa. Er na ddysgodd Jones ddarllen yn rhugl tan oedd yn 8 oed, yn ddiweddarach y gair ysgrifenedig fyddai calon ei allbwn artistig. Fel bardd ac awdur, cafodd gweithiau fel 'The Anathemata' ac 'In Parenthesis' eu canmol gan ei gyfoedion fel T.S. Elliot, W.B. Yeats a Graham Greene.



Roedd ei baentiadau'n aml yn darlunio portreadau, ffigurau, anifeiliaid a thirweddau Cymru fel Capel-y-ffin a Dinbych-y-pysgod. Mae Eastwood, fodd bynnag, â diddordeb ym mhaentiadau Jones o lythrennau, a ysgrifennwyd yn aml yn Lladin a Chymraeg. Mae'r gweithiau hyn yn llenwi'r dudalen trwy gyddwyso bylchau rhwng geiriau. Mae darllenadwyedd testunau Jones yn dechrau crebachu a dod yn fwy gweledol. Yn hytrach nag iaith glir, gwelwn flociau rhythmig hyfryd o siapiau ac ystumiau.



# Gweithgaredd 1:

Defnyddiwch feiro, pensil neu ben ffelt a lluniwch lythyren yn yr arddull o dan bob sgwâr ar y dudalen nesa. Gelwir y gwahanol arddulliau hyn o lythrennau yn ffontiau ac mae dyluniad ffont yn fath o Deipograffeg.


A B C CH D Dd

E F Ff G NG H

I J L LL M N

O P PH R RH S

T TH U W Y



Tenau

Swigod

3D

Seriff

Sgwar


Cysgod

Llinellau bler

Patrymau

Dwdl

# Paul Eastwood




OL Y AR AC IE YR
2026
Pensel lliw ar bapur,
Maint A3




Copy
2025
Pensel lliw ar bapur,
Maint A3



HA HA HA HA
2025
Pensel lliw ar bapur,
Maint A3




Copy Out
2025
Pensel lliw ar bapur,
Maint A3


# Gweithgaredd 2:

Cymerwch olwg ar waith celf Paul Eastwood, ydych chi'n ei hoffi? Ydy o'n gwneud i chi deimlo rhywbeth? Gofynnwch i'ch ffrind neu'ch teulu beth yw eu barn nhw. Ychwanegwch eich meddyliau yn y swigod siarad.


# Gweithgaredd 3:




Beth sydd yn eich pen? Defnyddiwch feiro, pensil neu ben ffelt a lluniwch y tu mewn i'r pen. Gallwch chi greu darlun o'ch hoff beth, eich hoff le. Gallwch chi dynnu llun o'r hyn rydych chi'n ei garu neu'r hyn allwch chi ei weld.





# Gweithgaredd 4:





Gan ddefnyddio datganiad celf Paul Eastwood isod, gadewch i ni greu cerdd blacowt. Yn gyntaf mae angen i ni ei darllen a dewis geiriau sy'n sefyll allan i chi. Defnyddiwch feiro, pensil neu ben ffelt a marciwch, sgrialu neu lluniwch o amgylch y geiriau. Efallai yr hoffech chi grafu'r allan y geiriau nad ydych chi wedi'u dewis.






“Mae Dad-ddarlleniadau yn cyflwyno corff newydd o waith gan yr artist Paul Eastwood, sydd wedi’i leoli yng Nghymru, sy’n archwilio iaith fel deunydd a safle brwydrau. Gan dynnu ar ei brofiad bywyd fel artist dwyieithog dyslecsig a niwrowahanol, mae Eastwood yn trawsnewid cam-gyfathrebu, camddarllen, camsillafu a cham-ynganu yn strategaethau creadigol. Mae’r arddangosfa’n dwyn ynghyd weithiau ar bapur, cerflunio, delwedd symudol a sain i ymchwilio i sut mae iaith yn llunio hunaniaeth, cof a pherthyn. Drwy ddatgelu’r llafur, y negodi a’r ansicrwydd sydd wedi’i wreiddio mewn ysgrifennu, mae Dad-darlleniadau yn gwahodd gwylwyr i ystyried sut mae ystyr yn cael ei adeiladu, ei amharu a’i ail-greu.

Mae’r gwaith newydd hwn, a gyflwynir yn Oriel Mostyn, yn parhau ag arfer Eastwood o weithio gyda chydweithwyr hirdymor a rhai newydd: Samuel Barnes, cyfansoddwr; Dr Angharad Harrop, coreograffydd; Eilir Pierce, cyfarwyddwr ffilm; a Dr Sara Lewis Wheeler, darlithydd a bardd.”

# Dyslecsia

Beth mae dyslecsia yn ei olygu?


Daw'r gair dyslecsia o'r iaith Groeg sy'n golygu anhawster gyda geiriau. Mae'n gyflwr niwrolegol cyffredin, gydol oes sy'n effeithio ar 10% o boblogaeth y DU. Nid dim ond cael darllen, ysgrifennu a sillafu yn anodd ydyw. Gall hefyd effeithio ar siarad, cofio, deall, cyflymder, symudiad a mathemateg sylfaenol. Gall amrywio o ysgafn i ddifrifol. Ond gyda chefnogaeth a dealltwriaeth gallwch gael y cymorth sydd ei angen arnoch i lwyddo. Mae dyslecsia yn ffordd wahanol o ddysgu a meddwl! A gallant fod yn eithriadol o dda yn rhai o'r canlynol.



https://www.bdadyslexia.org.uk

https://www.walesdyslexia.org.uk

‘The Illustrated Guide to Dyslexia and Its Amazing People’
Llyfr gan Kate Power a Kathy Iwanczak Forsyth



Darllen

Edrych

Darlunio

Siarad

Clic

mostyn
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
CELF
Oriel gelf gyfoes genedlaethol i Gymru
National contemporary art gallery for Wales
FOUNDATION
FOUNDATION

Dylunio: Rebecca F Hardy

www.mostyn.org
12 Vaughan Street, Llandudno, LL30 1AB